**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor
Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru

SeneddPAPA@senedd.wales

25 Chwefror 2022

Annwyl Mark,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 10 Chwefror ynghylch y Fframwaith Cyffredin ar gyfer Taliadau Hwyr Dros Dro.

Rwy'n nodi fy ymateb i'ch cwestiynau isod:

**Cyffredinol**

1. Pam mae angen fframwaith ar gyfer cyfraith taliadau hwyr a sut y bydd yn cysylltu â'r fframwaith ar gaffael cyhoeddus?

   Bydd fframwaith ar gyfer taliadau hwyr yn atal busnesau sy'n gweithredu ar draws nifer o weinyddiaethau yn y DU rhag cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan wahanol reoliadau rhwng y gweinyddiaethau. Er enghraifft, pe byddai pob un o'r pedair gweinyddiaeth yn dewis gweithredu gwahanol amserlenni rheoleiddio ar gyfer ad-dalu neu gyflwyno gwahanol gyfraddau llog statudol ar daliadau hwyr, efallai na fydd meini prawf pendant i ganfod pa reoliadau sy'n berthnasol i fusnesau sy'n gweithredu ar draws gwahanol ranbarthau'r DU. Gallai hefyd arwain at fantais neu anfantais gystadleuol i rai busnesau. Mae dull gweithredu cyffredin yn y DU wedi cael ei gynnal hyd yma, gan gydnabod pwysigrwydd cynnal tegwch ar draws y corff presennol o ddeddfwriaeth taliadau hwyr, gan ddarparu cysondeb a dull gweithredu unffurf er budd busnesau ledled y DU. Bydd y Fframwaith Taliadau Hwyr yn sicrhau bod y dull hwn yn cael ei gynnal.

   Nid oes cysylltiad rhwng y fframwaith hwn a'r fframwaith caffael. Caffael yw'r weithred o gael nwyddau a gwasanaethau tra mai pwrpas taliadau hwyr yw sicrhau bod taliadau'n cael eu gwneud yn brydlon neu fel arall gall busnes hawlio llog a chostau adennill dyledion.

**Gwneud penderfyniadau**

2. Mae'r fframwaith yn datgan y bydd llywodraethau'n 'ceisio cynnal chwarae teg ar draws y corff presennol o ddeddfwriaeth taliadau hwyr'. Ydych chi'n credu bod y fframwaith yn

rhoi cwmpas priodol i Lywodraeth Cymru a'r Senedd lunio cyfraith a pholisi ar gyfer Cymru?

Nid yw'r Fframwaith yn cyfyngu o gwbl ar bwerau'r Senedd.

3. A fydd y fframwaith yn cael unrhyw effaith ar unrhyw ddeddfwriaeth neu bolisi presennol neu arfaethedig yng Nghymru?

   Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw feysydd penodol o amrywiaeth ar y gweill. Fodd bynnag, mae'n bwysig cadw'r gallu i wyro oddi wrth rannau eraill o'r DU os bernir bod hynny'n briodol yn y dyfodol, hyd yn oed os nad oes modd rhagweld amgylchiadau'r gwyro hwnnw eto.

4. Mae Llywodraeth y DU wedi nodi cynlluniau ar gyfer newidiadau i gyfraith caffael sy'n ymwneud â thalu'n hwyr mewn ymateb i'w hymgynghoriad ar Drawsnewid Caffael Cyhoeddus. A fydd y newidiadau hyn yn cael eu hystyried drwy'r fframwaith hwn?

   Ym mis Awst 2021, cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol y bydd y ddarpariaeth ar gyfer Awdurdodau Contractio yng Nghymru yn cael ei gwneud o fewn Bil Caffael Cyhoeddus Llywodraeth y DU. Er mwyn sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn adlewyrchu blaenoriaethau polisi Gweinidogion Cymru ar gyfer caffael cyhoeddus yn llawn, mae swyddogion Cymru yn gweithio'n agos gyda thîm Bil Diwygio Caffael y DU i ddatblygu'r Bil.

   Defnyddir cyfarfodydd Gweithgor y Fframwaith Cyffredin ar Gaffael fel fforwm i ddiweddaru cymuned ehangach o swyddogion polisi o'r pedair Weinyddiaeth ac i drafod unrhyw faterion sy'n codi gyda'r meysydd polisi y mae'n ymdrin â hwy; gall materion o'r fath gynnwys taliadau hwyr.

5. A yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu i'r newidiadau hyn gael eu cymhwyso i gaffael datganoledig yng Nghymru?

   Mae'r fframwaith caffael y tu allan i gwmpas y Fframwaith hwn.

6. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi cynlluniau i alluogi diwygio a diddymu cyfraith yr UE sy'n cael ei dargadw, yn gynt. A fyddai unrhyw newidiadau o'r fath i gyfraith yr UE sy'n cael ei dargadw ar daliadau hwyr yn cael eu hystyried drwy'r fframwaith, ac (os felly) sut?

   Mae'n rhy gynnar i ddweud heb ragor o fanylion am y broses y mae Llywodraeth y DU yn bwriadu ei defnyddio.

**Ymrwymiadau rhyngwladol**

7. Pa rwymedigaethau rhyngwladol sy'n berthnasol i'r fframwaith hwn a sut mae'r fframwaith yn ystyried rhwymedigaethau rhyngwladol?

   Nid yw rhwymedigaethau rhyngwladol yn cael eu hystyried o dan y Fframwaith hwn.

8. Os bydd angen diwygio'r fframwaith yn y dyfodol i adlewyrchu rhwymedigaeth ryngwladol newydd, pa broses adolygu fydd yn cael ei defnyddio?

   Mae pwyntiau adolygu wedi'u cynnwys yn y Fframwaith. Disgwylir y bydd y rhain yn rhoi cyfleoedd ychwanegol i randdeiliaid ac i'r Senedd gymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu ac esblygu Fframweithiau.

Bydd y Fframwaith yn cael ei adolygu flwyddyn ar ôl ei gymeradwyo'n derfynol, a phob tair blynedd wedi hynny, i sicrhau ei fod yn gweithio'n effeithiol, neu a ddylid gwneud unrhyw newidiadau.

Byddai pwynt adolygu hefyd yn cael ei sbarduno gan newid arfaethedig i'r Fframwaith, er enghraifft, er mwyn adlewyrchu rhwymedigaeth ryngwladol newydd. Os bydd newidiadau'n cael eu gwneud i'r Fframwaith, yna bydd y rhain yn cael eu hysbysu i bwyllgorau'r Senedd er mwyn iddynt gynnal y lefel o graffu sy'n briodol ac yn angenrheidiol yn eu barn hwy.

**Deddf Marchnad Fewnol y DU**

9. Mae dadansoddiad Llywodraeth y DU yn awgrymu bod y fframwaith hwn yn rhyngweithio â Deddf Marchnad Fewnol y DU. A allwch chi amlinellu beth fyddai effaith y Ddeddf ar y fframwaith ac a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu ceisio eithriad o'r Ddeddf yn y maes fframwaith hwn?

Mae Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig wedi datblygu proses ar gyfer ystyried a chytuno ar eithriadau o'r fath mewn meysydd lle ceir gwahaniaethau polisi o fewn Fframwaith Cyffredin ac mae wedi cael ei rhannu â'r Senedd. Mae'r rhaglen Fframweithiau Cyffredin yn ymwneud yn bennaf â rheoli amrywiaeth ar draws gwledydd y DU ac mae'r broses eithriadau yn ganolog i hyn.

**Llywodraethu a datrys anghydfodau**

10. A ydych yn ystyried bod y dull datrys anghydfod yn ddigon cadarn i'w bwrpas arfaethedig?

Ydw, rwy'n credu bod y mecanweithiau'n gadarn ac yn gymesur. Mae'r rhain wedi cael eu datblygu a'u cytuno ar y cyd gan bedair gwlad y DU.

11. Mae'r fframwaith yn darparu ar gyfer gohirio'r camau sy'n destun anghydfod tra bo'r broses datrys anghydfod yn mynd rhagddi. A ydych o'r farn bod hyn yn peri unrhyw risg o ran arfer cymhwysedd datganoledig?

Mae gohirio unrhyw gamau sy'n destun anghydfod yn rhan y cytunwyd arni o system delio ag anghydfodau'r fframweithiau ac rydym yn gweld hyn fel dull synhwyrol i ddiogelu uniondeb y system fframweithiau.

**Tryloywder ac atebolrwydd**

12. A wnaeth Llywodraeth Cymru ymgysylltu ag unrhyw randdeiliaid yng Nghymru wrth ddatblygu'r fframwaith dros dro? Sut mae'r fframwaith dros dro yn adlewyrchu ymateb rhanddeiliaid?

Darparwyd crynodeb o'r Fframwaith i amrywiaeth o randdeiliaid ar draws y pedair gwlad.

Mae pwyntiau adolygu wedi'u cynnwys ym mhob Fframwaith. Disgwylir y bydd y rhain yn rhoi cyfleoedd ychwanegol i randdeiliaid gymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu ac esblygu Fframweithiau. Bydd swyddogion yn monitro gweithrediad y fframweithiau penodol sy'n berthnasol i'w meysydd polisi ac yn gofyn am fewnbwn gan randdeiliaid fel y bo'n briodol.

13. Sut bydd y Senedd a rhanddeiliaid yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am weithrediad parhaus y fframwaith ac yn cyfrannu at yr adolygiad a'r broses ddiwygio ar gyfer y fframwaith?

    Mae ymrwymiad i adrodd cyson ar Fframweithiau ar ôl eu cwblhau. Mae'r manylion yn cael eu trafod ar lefel swyddogol ar hyn o bryd. Mae pwyntiau adolygu wedi'u cynnwys ym mhob Fframwaith. Disgwylir y bydd y rhain yn rhoi cyfleoedd ychwanegol i'r Senedd gymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu ac esblygu Fframweithiau.

    Bydd y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol yn monitro cynnydd y rhaglen Fframweithiau er mwyn cyflawni'r rôl a roddwyd iddo gan yr Adolygiad ar y cyd o Gysylltiadau Rhynglywodraethol i 'Darparu goruchwyliaeth o'r rhaglen Fframweithiau Cyffredin a'i threfniadau llywodraethu'.

    Disgwylir y bydd adroddiadau ar Fframweithiau'n ddogfennau cyhoeddus ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo gan Weinidogion y portffolio a byddant ar gael i'r pwyllgorau perthnasol yn y pedair gwlad yn ogystal â rhanddeiliaid perthnasol.

    Yn ogystal, mae ymrwymiad i hysbysu'r Senedd:
    - am anghydfodau a godwyd drwy'r Fframweithiau
    - pan fydd anghydfodau'n cael eu huwchgyfeirio at Weinidogion
    - a rhanddeiliaid ynghylch pwyntiau adolygu sydd ar y gweill ac ystyried argymhellion gan y Senedd a rhanddeiliaid fel rhan o'r un broses adolygu
    - am unrhyw ddeddfwriaeth newydd sy'n effeithio ar y Fframweithiau
    - am unrhyw geisiadau am eithriad dan UKIMA.

14. Mae'r fframwaith yn datgan y bydd 'yn cael ei adolygu'n flynyddol', yna bydd yn cael ei adolygu 'un flwyddyn ar ôl ei gymeradwyo'n derfynol, a phob tair blynedd ar ôl hynny' (tudalen 12). Pa un o'r rhain sy'n gywir?

    Bydd y fframwaith yn cael ei adolygu flwyddyn ar ôl ei gymeradwyo a phob tair blynedd wedi hynny.

15. Os bydd newidiadau'n cael eu gwneud yn y dyfodol, sut bydd y Senedd yn cael gwybod? Pa weithdrefn graffu fydd yn berthnasol i'r newidiadau?

    Fel cwestiwn 13.

Yn gywir,

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy